| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **11 Hydref 2010** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

## 2. Penderfyniadau

**Achos 200802179**

Cwyn o ddiffyg parch a bwlio (paragraff 4(a) & (b)).

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio parhau â'r ymchwiliad.

**Achos 200802180**

Cwyn o ddiffyg parch a bwlio (paragraff 4(a) & (b)).

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio parhau â'r ymchwiliad.

**Achos 200900808**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod (para.6(1) (a)).

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon a chyhoeddi adroddiad er nad oedd y digwyddiad yn gysylltiedig â gwaith y cyngor yr oedd y cynghorydd yn aelod ohono. Roedd hyn oherwydd bod paragraff 6(1)(a) yn berthnasol i ymddygiad aelod ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti. Wedi ystyriaeth bellach serch hynny, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y drosedd yn dyddio yn ôl i gyfnod cyn i God Ymddygiad 2008 ddod i rym ac nid oedd felly'n berthnasol i'r drosedd. Tynnodd ei adroddiad yn ôl o Banel Dyfarnu Cymru fel canlyniad.

**Achos 2402/200901904**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod (para.6(1)(a)

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio parhau â'r ymchwiliad.

**<u>Achosion 2665/201001151 & 2665/201001152</u>**

Roedd yr achwynydd yn cwyno am y modd y cynhaliodd yr aelodau gyfarfod o ymddiriedolaeth leol lle'r oeddynt yn cynrychioli'r cyngor tref. Ni welai'r Ombwdsmon dystiolaeth o unrhyw doriad neu awgrym o doriad arwyddocaol o'r cod. Roedd yr achwynydd hefyd yn cwyno am afreoleidd-dra trefniadol ond hyd yn oed pe profir hynny, ni fyddai'n cynrychioli enghraifft o dorri'r cod. Penderfynodd felly beidio cynnal ymchwiliad.

## 3. Achosion heb benderfyniad

Rydym yn ymwybodol o 1 gŵyn sydd ar agor ar hyn o bryd:

**<u>Achos 200901550</u>**

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod (para.6(1)(a))

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.